Diweddariad yr Aelodau Llais y Goedwig Rhif 10 Ebrill 2011

I ble nesaf?

Roedd y Gynhadledd Flynyddol a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Ninbych yn llwyddiannus iawn a dylech fod wedi derbyn yr adroddiadau a'r cofnodion o'r ddau ddigwyddiad. Cysylltwch â Jo os oes arnoch angen copïau o'r naill neu'r llall ohonynt. Cyfarfu'r Bwrdd newydd am y tro cyntaf ar 13 Ebrill i ystyried y syniadau a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn Ninbych a'r mandad ar gyfer Llais y Goedwig yn 2011-12. Rhoddir y rhain yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod a bydd yn destun y Diweddariad nesaf.

Cynnwys:

- **Staff LlyG**
- **Cyfarwyddwr Newydd**
- **Cefnogaeth i LlyG**
- **Dangos ffilmiau rhyngwladol am goedwigoedd**
- **Cyhoeddiadau**
- **Taflenni hyrwyddo**
- **Crysau-T LlyG**
- **Darllenydd newid hinsawdd**
- **Digwyddiadau yn ymwneud â choedlannau**
- **Newyddion cyllido**
- **LlyG – Gweithgor polisi**
- **Slip archebu i'w rwygo ymaith**

Staff LlyG

Oherwydd cwtogiadau ar y cyllid mae'r Bwrdd wedi penderfynu cwtogi nifer y staff a gyflogir gan LlyG, ac yn fuan ar ôl y gynhadledd gwnaed penderfyniad trist i ffarwelio â Chloe a adawodd ar

ddiwedd Mawrth. Bydd Jo yn aros am y chwe mis nesaf, ac fel arfer bydd yn y swyddfa ym Machynlleth ar ddydd Mawrth (9.30-5.30), dydd Iau (9.30-5.30) a dydd Gwener (10-3). Y rhif cyswllt yma yw 01654 700061 (neu 0845 456 0342) neu e-bost <info@llaisygoedwig.org.uk%20>

Cyfarwyddwyr Newydd

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol rydym yn falch o groesawu dau gyfarwyddwr newydd; Adam Thorogood a Ruth Stafford. Mae cyflwyniad a ysgrifennwyd gan bob un ohonynt yn dilyn:

Ruth

Mae fy mywyd hyd yma yn cynnwys (heb fod mewn unrhyw drefn arbennig):
Cael fy magu ar fferm ger y Trallwng yn Sir Drefaldwyn ac yna astudio Busnes a Ffrangeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, (er y teimlwn y dylwn fod wedi gwneud Daearyddiaeth!) Yna cefais nifer o swyddi gyda chyflogwyr lleol cyn rhedeg i ffwrdd gyda'r Syrcas. Bûm yn addysgu yn Ffrainc a Groeg cyn dod yn ôl i reoli siopau Oxfam yn y Trallwng a Llandrindod a chanu mewn tafarnau i ennill arian! Yna symudais dros y ffin i fyw yng Nghaerwrangon am 3½ blynedd, bûm yn ymwneud â grwpiau Gwyrdd yno ac yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Gynaliadwy am dros 7 mlynedd. Ar hyn o bryd rwyf ym mand samba Trefesgob, ac yn rhedeg bob dydd ac yn rhedeg rasys y 'fells' yn rheolaidd. Rwy'n ceisio gwella fy sgiliau saethyddiaeth a chanfod amser i ailddechrau dod o hyd i amser i ailddechrau gyda'r celfyddydau milwrol a dysgu canu'r gitâr!
Ar hyn o bryd rwy'n aelod o/yn ymwneud â:
- Tref Trawsnewid Amwythig
- Tref Trawsnewid y Drenewydd
- Perllan Gymunedol y Drenewydd
- Gwasanaeth Ynni Cartrefi Trefesgob
- Atebion Ynni Llanidloes (Ymddiriedolwr)
- Grŵp Ynni Sir Drefaldwyn
- Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bywyd Gwyllt Maldwyn
- Cyfeillion y Ddaear Croesoswallt
- Cyfeillion y Ddaear Trefesgob

Rwyf wrth fy modd gyda'm bywyd a'r bobl ynddo. Yn y dyfodol? Hoffwn ffermio'n dda, plannu coed, creu cerddoriaeth a chadw gwenyn.

Adam

Mae Adam yn gyd-sylfaenydd Coetiroedd Dyfi Woodlands, menter gymdeithasol sy'n gweithio yn Nyffryn Dyfi i gyflenwi prosiectau gwirfoddoli ac addysgol mewn coedlannau. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda phobl leol eraill i sefydlu coedlan gymunedol yn Nhŷ Gwyn, un o goedlannau'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n agos at Fachynlleth. Daeth i gymryd rhan gyda Llais y Goedwig drwy astudio Coedwigaeth ym Mhrifysgol Bangor pan wirfoddolodd i helpu i gynhyrchu'r Darllenydd Newid Hinsawdd, adnodd digidol o lenyddiaeth newid hinsawdd sy'n ymwneud â choedlannau. Mae'n hoffi canu'r gitâr, siopau llyfrau ail-law a chadw'n brysur.

Cefnogaeth i LlyG

Rydym newydd dderbyn newyddion fod y Comisiwn Coedwigaeth yn gallu parhau i gefnogi datblygiad LlyG am y flwyddyn i ddod gyda grant o £25,000. Felly rydym yn awr yn edrych ymlaen at allu cyflenwi hyd yn oed mwy. Ond ein hadnoddau pwysicaf yw pobl a syniadau ac ar gyfer hyn mae arnom angen mwy o bobl sy'n gallu helpu - rhowch wybod i Jo os oes rhywbeth y credwch y gallech helpu gydag ef, o waith cyfieithu, edrych ar ôl stondin, ysgrifennu cynigion ar gyfer prosiectau neu fentora rhywun sy'n meddwl am fentro i ddechrau grŵp coedlan cymunedol.

Dangos ffilmiau rhyngwladol am goedwigoedd

Daeth diwrnod cyntaf cynhadledd "Cyllido Coedlannau Cymunedol" i ben gyda dangos rhai o'r ffilmiau o'r Ŵyl Ffilmiau Rhyngwladol am Goedwigoedd a gynhaliwyd yn gynharach eleni yn Jackson Hole yn yr Unol Daleithiau. Mae Llais y Goedwig wedi llwyddo i gael saith o'r rhestr enfawr o ffilmiau a ddangoswyd yn yr ŵyl honno. Mae'r saith hyn i gyd yn canolbwyntio ar goedlannau cymunedol ac yn cynrychioli cymunedau coedwigaeth a choedlannau cymunedol o bob rhan o'r byd. Gwnaed argraff arbennig arnom gan y ffilm 'Satoyama', portread hardd o berthynas rhwng coedlan a phentref yn symud trwy un flwyddyn. Mae ffilmiau eraill yn y set yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â choedwigaeth mewn gwahanol wledydd fel Indonesia, Rwsia a'r DU.

Mynegodd grwpiau o aelodau yn y gynhadledd ddymuniad i gynnal eu ffilmiau eu hunain a'r cynllun yw helpu grwpiau sy'n dymuno gwneud hynny i wneud hyn. Cysylltwch ag Adam Thorogood os hoffech gynnal eich sgriniad eich hun: adamthorogood@llaisygoedwig.co.uk .

JACKSON HOLE WILDLIFE FILM FESTIVAL

INTERNATIONAL YEAR OF FORESTS • 2011

Cyhoeddiadau

Dylai'r rhai ohonoch a ddaeth i Ddinbych fod wedi derbyn copïau papur o'r gyntaf o'r tair cyfres newydd o gyhoeddiadau Llais y Goedwig sydd wedi bod yn ein cadw'n brysur dros y gaeaf. I gadw costau i lawr rydym yn cyhoeddi'r dogfennau hyn ar ffurf ffeiliau pdf ar y wefan i chi eu lawrlwytho. Rydym yn bwriadu darparu copi caled am ddim o AN1 a CS1 (gweler isod) i bob aelod ond bydd rhaid inni ofyn am danysgrifiadau os hoffech dderbyn copïau caled o bob un o'r cyhoeddiadau. Rydym felly yn cyflwyno tanysgrifiad blynyddol o £20 i dalu am gostau argraffu a phostio copïau papur o'r holl gyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan LlyG. Mae copïau sy'n cael eu lawrlwythro o'r wefan am ddim, a byddant ar gael yn fuan (nodwch nad yw'r holl gyhoeddiadau wedi eu cwblhau eto). Defnyddiwch y ffurflen archebu ar ddiwedd y diweddariad hwn neu cysylltwch â Jo os hoffech drefnu tanysgrifiad print. Cysylltwch hefyd os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu cynnig fel pwnc ar gyfer nodiadau ymgynghorol yn y dyfodol neu grwpiau allai gyfrannu Astudiaethau Achos diddorol.

Nodiadau ymgynghorol	Saesneg	Cymraeg	Statws
AN! - Dod i adnabod eich cymuned	Ie	Ie	Cyflawn
AN2 - Dod i adnabod eich coedwigoedd	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd
AN3 – Cynllunio rheoli coedlannau	Na	Na	Gyda'r golygydd
AN4 – Diffinio amcanion	Ie	Ie	Cyflawn
AN5 – Cyflwyniad i newid hinsawdd	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd

http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/advisory-notes/

Astudiaeth achos	Saesneg	Cymraeg	Statws
CS1 – Ymateb i gyfleoedd:	Ie	Ie	Cyflawn

Coedlan Gymunedol Blaen Brân			
CS2 – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd
CS3 – Coed Marros	Na	Na	Yn cael ei baratoi
CS4 - Llangatwg	Na	Na	Yn cael ei baratoi
CS5 – Coed y Bobl	Na	Na	Yn cael ei baratoi

http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/case-studies/

Taflenni hyrwyddo

I gefnogi grwpiau coedlannau cymunedol a lledaenu'r neges am Llais y Goedwig rydym wedi paratoi cyfres o daflenni hyrwyddo y gobeithiwn fydd yn ddefnyddiol i chi:

- Beth y gallwn ni ei wneud i grwpiau coedlannau cymunedol
- Beth y gallwn ni ei wneud i awdurdodau lleol
- Beth y gallwn ni ei wneud...cyhoeddiadau
- Beth y gallwn ni ei wneud...gwefan
- Beth y gallwn ni ei wneud...darllenydd newid hinsawdd

Mae'r rhain i gyd ar gael fel ffeiliau pdf y gellir eu lawrlwytho o'r wefan
http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/

Mae Jo yn fodlon paratoi pecynnau hyrwyddo hefyd i gynnwys copïau lluosog o'r taflenni hyrwyddo a phentwr o gardiau post er mwyn i chi ledaenu'r neges am Lais y Goedwig. Cysylltwch â Jo os byddwch yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau lle gallech ddosbarthu taflenni.

Crysau-T LlyG

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lansiwyd ein casgliad cyntaf o ddillad gyda brand LlyG arnynt.

Gwneir crysau-t newydd Llais y Goedwig gyda chotwm sy'n organig ac sy'n gotwm masnach deg, ac maent ar gael i'w prynu am £10 i ddynion (maint M, L ac Xl) a merched (M,L). Mae'r meintiau ychydig yn fach felly efallai y byddai'n well archebu maint sy'n fwy nag rydych yn arfer ag ef.

I archebu, defnyddiwch y ffurflen archeb ar ddiwedd y Diweddariad hwn neu anfonwch siec yn daladwy i Llais y Goedwig, yn nodi'r steil, y maint a nifer y crysau-t a ddymunwch at Jo yn: Uned 6, Parc Eco Dyfi, Machynlleth SY20 8AX

Mae'r crysau-T a ddangosir yn rhai Merched L a Dynion XL.



	S	M	L	XL	XXL	
a	19 3/4	20 3/4	22	23 1/2	25 1/4	inch
	50	53	56	60	64	cm
b	27 1/2	28 1/4	29 1/4	30	30 3/4	inch
	70	72	74	76	78	cm



	S	M	L	XL	
a	16 1/4	17 1/4	18 1/2	19 3/4	inch
	41	44	47	50	cm
b	22 3/4	23 1/2	24 1/2	25 1/4	inch
	58	60	62	64	cm

Darllenydd newid hinsawdd

Mae'r Darllenydd Newid Hinsawdd yn gasgliad o 40 o erthyglau a phapurau ar bob agwedd o'r rhyngweithio rhwng newid hinsawdd a choedlannau. Mae cymaint â hyn o ddogfennau yn llawer i balu drwyddynt felly wrth galon y Darllenydd ceir llyfryddiaeth wedi eu hanodi gyda sêr i nodi anhawster fel y gallwch asesu cynnwys papur yn gyflym.

Mae pynciau y rhoddir sylw iddynt yn y darllenydd yn cynnwys:

(a) Newidiadau a ragfynegir i strwythur a swyddogaeth y goedlan yn deillio o newid hinsawdd yng Nghymru

(b) Argymhellion ar gyfer gwella'r modd y mae coedlannau Cymru a bioamrywiaeth yn addasu a pha mor wydn y maent

(c) Cyfraniad coedlannau cymunedol i ddal a storio carbon.

Mae'r Darllenydd ar gael i'w brynu am £10 ar ddreif USB pren (mae'n bren FSC rhag ofn eich bod yn amheus) gan ddefnyddio'r ffurflen archebu ar ddiwedd y Diweddariad hwn neu drwy alw Jo. Mae'r ffeiliau y mae'n eu cynnwys ar gael am ddim ar y wefan hefyd:

http://llaisygoedwig.org.uk/ccreader/

Digwyddiadau yn ymwneud â choedlannau

Mae LlyG yn awyddus i fynd allan mwy a chyfarfod ag aelodau newydd a phresennol i roi gwybod i bawb beth rydym yn ei wneud. Hoffem edrych ar y posibilrwydd o gael presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynllunio gan ein haelodau. Os yw eich grŵp yn cynnal digwyddiad/digwyddiadau'r haf hwn rhowch wybod i ni a allwn ddod draw neu eich bod yn fodlon dangos deunyddiau LlyG yno. Mae croeso i chi hefyd anfon hysbysiadau am eich digwyddiadau at Jo i'w cynnwys mewn Diweddariadau yn y dyfodol ac ar dudalen gwe 'Newyddion yr Aelodau' ar wefan LlyG. <http://llaisygoedwig.org.uk/who-we-are/members-news/>

Dyma rai o'r digwyddiadau a gynhelir yn fuan i ddenu eich diddordeb:

Panto Eco

Golygfa Gwydyr a Theatr Cynefin, Ebrill 21 – Mai 2 (www.golygfagwydyr.org). Panto – ond nid fel ydych yn gyfarwydd â phanto! Mae'r panto wedi mynd yn wyrdd ac yn darganfod ei wreiddiau yn y goedwig. Perfformiad awyr agored yn cyfuno pantomeim gyda nwyddau a deunyddiau wedi eu hailgylchu. Perfformiad rhyngweithiol, celf, cerddoriaeth a llawer mwy.

Bydd artistiaid proffesiynol a gwirfoddolwyr cymunedol o Gymru, y DU ac Ewrop yn ail-ddehongli storïau a chymeriadau o'r traddodiad mwyaf ecsentrig hwn. Mae'r cymeriadau yn cynnwys y Fam Fedydd Dylwyth Teg, y Dywysoges Hir ei Chwsg a'r Wydd Aur. Bydd perfformiadau yn cael eu hailadrodd rhwng 4pm ac 8pm. I archebu lle ffoniwch Menter iaith Conwy ar 01492 642357

Coed y Bobl - Ffair Goedlan - Dydd Sadwrn 14 Mai, 10 - 4.30 - Am ddim a chroeso i bawb. E-bostiwch coedybobl@hotmail.co.uk <mailto:coedybobl@hotmail.co.uk> am fwy o fanylion

Er nad yw'r canlynol wedi dod oddi wrth un o'r aelodau, efallai y bydd o ddiddordeb:

‘Woollen Lines’
‘Woollen Lines’

Mae gan Pip Woolf brosiect i osod deunydd a wneir o ffelt gwlân gwastraff o Ben Trumau, Aberhonddu i reoli erydiad, ac mae newydd gael cyllid ar gyfer prosiect pellach. Mae wedi gofyn am wirfoddolwyr i wneud y ffelt yn siapiau y gellir eu defnyddio a hefyd i osod y deunydd. Bydd Pip yn cynnal sesiynau i wneud selsig gwlân yn ei stiwdio ar Ebrill 7, 8, 13 o 2.30-4.30 ac yn Arts Alive ar 20 a 29 Ebrill 10.30-12.30.

Os oes gennych ddiddordeb ac os hoffech gymryd rhan mae croeso mawr i chi!

Gallwch gysylltu â Pip Woolf yn uniongyrchol i gofrestru eich diddordeb:
Ebost: gilpip@googlemail.com neu ffoniwch 01874 730995

I gael mwy o gefndir am y prosiect edrychwch ar y blog, lle ceir ffotograffau hefyd
http://www.woollenline.wordpress.com

Newyddion cyllido

Mae cronfa ddata am gyllid yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a dylai fod ar gael ar y wefan yn fuan felly gwyliwch y gofod hwn! Bydd mwy o fanylion yn y diweddariad nesaf www.llaisygoedwig.org.uk

---

LlyG – Gweithgor polisi

Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol diweddar gofynnodd yr aelodau i Fwrdd LlyG ddatblygu maniffesto ar gyfer coedwigoedd Cymru. Byddai’r maniffesto yn argymell egwyddorion newydd yn ymwneud â mynediad a rheoli; yn ymrymuso llywodraethau lleol; yn ymdrin â chynllunio coedlannau ar gyfer anghenion y dyfodol; ac yn ysgogi mentrau sy’n gysylltiedig â choedlannau. Mae rhai aelodau eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan mewn gweithgor i ddatblygu’r maniffesto. Mae arnom angen mwy o bobl i gymryd rhan o blith ein haelodau felly os hoffech ein helpu i ddatblygu perthynas newydd rhwng ein coedlannau a chymunedau cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Byddwn wrth gwrs yn ymgynghori gyda chi ynglŷn â’r maniffesto wrth iddo ddatblygu.

Mae Llais y Goedwig yn gymdeithas wirfoddol o grwpiau coedlannau cymunedol a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2009 i ddarparu llais ar gyfer coedlannau cymunedol. Dymunwn rannu profiadau, cefnogi ein gilydd a gwella coedlannau lleol er budd pobl Cymru.

Cysylltwch â ni
Llais y Goedwig
Uned 6, Parc Eco Dyfi
Machynlleth, Powys
SY20 8AX
Ffôn: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk

INTERNATIONAL YEAR OF FORESTS • 2011

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Slip archebu i'w rwygo ymaith

Dychwelwch y slip hwn at Jo yn Uned 6 gyda siec yn daladwy i "Llais y Goedwig" ac fe anfonwn y nwyddau atoch.

Enw:

Cyfeiriad:

Grŵp:

	Pris	**Nifer (a'r maint os yn gymwys)**	**Cyfanswm**
Tanysgrifiad blynyddol o gyhoeddiadau printiedig	**£20**		
Darllenydd Newid Hinsawdd ar ffon USB	**£10**		
Crys-T – steil dynion	**£10**		
Crys-T – steil merched	**£10**		
Ychwanegwch y tâl postio:			
Darllenydd Newid Hinsawdd	**50c**		
Crys(au)-T	**£2.50**		
CYFANSWM:			